COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

Codi arian ar gyfer elusennau: canllaw i ddyletswyddau ymddiriedolwyr

Bod yn gyfrifol am weithgareddau codi arian ein helusen: rhestr wirio i ymddiriedolwyr

Bwriedir i'r cwestiynau yn y rhestr wirio hon helpu ymddiriedolwyr elusen i werthuso perfformiad yr elusen, o bryd i'w gilydd, yn erbyn y gofynion cyfreithiol a'r argymhellion arfer da a nodir yn y **canllaw.** Gall ymddiriedolwyr ei ddefnyddio neu ei addasu os ydynt yn codi arian eu hunain neu'n ei ddirprwyo i eraill.

Mae pob un o'r cwestiynau ar y rhestr wirio yn cysylltu â pharagraff o'r canllaw, lle y gellir cael manylion pellach. Ni fydd pob un o'r materion a restrir yn briodol i bob elusen, er enghraifft, os yw adran o'r rhestr wirio yn delio â maes gweithgaredd nad yw'r elusen yn ymgymryd ag ef, ni fydd yr adran honno o'r rhestr wirio yn berthnasol.

Cynllunio'n effeithiol (gweler adran 4 o'r canllaw Codi arian ar gyfer elusennau: canllaw i ddyletswyddau ymddiriedolwyr)

Rydym wedi gosod neu gytuno ar ein strategaeth/cynllun codi arian ☐

Mae'n adlewyrchu:

- gwerthoedd ein helusen ☐
- yr adnoddau a ddefnyddiwn a'r costau a ddaw i'n rhan wrth godi arian ☐
- y prif risgiau ariannol ac enw da y gallwn eu hwynebu ☐

Trafodwn hyn yn ein cyfarfodydd er mwyn i ni allu:

- monitro cynnydd ☐
- rheoli'r prif risgiau ☐

Goruchwylio ein codwyr arian (gweler adran 5 o'r canllaw Codi arian ar gyfer elusennau: canllaw i ddyletswyddau ymddiriedolwyr)

Rydym wedi ystyried a phenderfynu pa faterion codi arian na fyddwn yn eu dirprwyo ☐

Mae systemau effeithiol gennym yn eu lle i sicrhau bod:

Ein staff codi arian mewnol:

- yn gwybod beth y dylent fod yn ei wneud, trwy ddisgrifiadau rôl ysgrifenedig ☐
- yn gwneud y gwaith yn llwyddiannus ☐

Ein gwirfoddolwyr a gafodd eu recriwtio:

- yn gwybod i bwy y maent yn adrodd iddynt, a phwy i gysylltu â nhw gyda phroblemau neu bryderon ☐
- deall y ffiniau y maent yn gweithio o'u mewn wrth gynrychioli ein helusen ☐

Ein his-gwmni masnachu:

- wrth godi arian ar gyfer ein helusen, yn cael ei fonitro ar sail ei effeithiolrwydd wrth wneud hynny ☐
- yn llunio partneriaethau masnachol dim ond os ydynt er lles gorau ein helusen ☐

Mae ein trefniadau gyda phartneriaid masnachol yn:

- cydymffurfio'n llawn â gofynion cyfreithiol perthnasol (gweler **Atodiad 1** Codi arian ar gyfer elusennau: canllaw i ddyletswyddau ymddiriedolwyr) ☐
- er lles gorau ein helusen oherwydd:
  - mae diwydrwydd dyladwy priodol yn cael ei gynnal ☐
  - mae ein gwerthoedd codi arian a'n disgwyliadau yn cael eu cyfathrebu ☐
  - mae modd cyfiawnhau'r costau a gellir eu hesbonio ☐
  - mae rheolaeth briodol yn cael ei chadw dros yr arian a godir ☐
  - mae'r cyfathrebiadau codi arian gaiff eu defnyddio yn cael eu hadolygu ☐
  - mae cydymffurfiaeth â'r cytundeb yn cael ei monitro ☐
  - mae unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei gydnabod ac yn cael sylw ☐

Diogelu enw da, arian ac asedau eraill ein helusen (gweler adran 6 Codi arian ar gyfer elusennau: canllaw i ddyletswyddau ymddiriedolwyr)

Mae systemau effeithiol gennym yn eu lle er mwyn:

- i'r risgiau enw da y gallai ein helusen eu hwynebu wrth godi arian gael eu nodi, eu hasesu a'u rheoli ☐
- i ganfyddiad darpar roddwyr, cefnogwyr a'r cyhoedd gael ei ystyried pan fydd disgwyliadau incwm a nodau eraill yn cael sylw ☐
- dilyn y rheolau cyfreithiol a'r safonau cydnabyddedig sy'n gymwys i'n gweithgareddau codi arian ☐
- cyfleu ein gwerthoedd i'r bobl sy'n gweithio ar godi arian ☐
- i gostau ein gweithgareddau codi arian gael eu rheoli a'u hesbonio ☐
- i'n cyllid codi arian gael ei gynllunio a'i fonitro ☐
- rhoi rheolaethau ariannol effeithiol yn eu lle a'u dilyn ☐
- lleihau'r risgiau o droseddau ariannol a thwyll ☐
- i'n helusen gael ei rhybuddio am unrhyw roddion amheus ☐

- our charity can stop (or authorise) any unauthorised fundraising activity using its name ☐
- i ddigwyddiadau difrifol gael eu hadrodd i'r comisiwn, yr heddlu ac asiantaethau eraill ☐
- i'n data, enw, delwedd, logo ac eiddo deallusol gael eu diogelu ☐

Dilyn y gyfraith a safonau cydnabyddedig (gweler adrannau 7 ac 8 o'r canllaw Codi arian ar gyfer elusennau: canllaw i ddyletswyddau ymddiriedolwyr)

Mae systemau effeithiol gennym yn eu lle er mwyn:

- i'r **Cod Ymarfer Codi Arian** ac adnoddau eraill (gweler Atodiad 2 Codi arian ar gyfer elusennau: canllaw i ddyletswyddau ymddiriedolwyr) gael eu defnyddio i gael gwybod am y rheolau cyfreithiol a'r safonau cydnabyddedig sy'n gymwys i'n weithgareddau codi arian ☐
- i'r rheolau a safonau hyn gael eu dilyn ☐

Bod yn agored ac yn atebol (gweler adran 9 o'r canllaw Codi arian ar gyfer elusennau: canllaw i ddyletswyddau ymddiriedolwyr)

Mae systemau effeithiol gennym yn eu lle er mwyn:

- gallu cydymffurfio ag unrhyw reolau a gofynion cyfreithiol sy'n gymwys i sut mae ein helusen yn adrodd am ei gweithgareddau codi arian ac yn rhoi cyfrif amdanynt ☐
- dilyn ein gweithdrefnau cwyno agored a hygyrch os yw pryderon yn cael eu codi ynghylch ein gweithgareddau codi arian ☐
- gallu cyfleu'n eglur ein nodau a chyflawniadau codi arian i'r cyhoedd ac i roddwyr a chefnogwyr ☐